**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
28 Ionawr 2025

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025 ('y Gorchymyn') yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n nodi:
- (i) y cyrff (y cyfeirir atynt fel "personau" yn y Mesur) sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ('safonau');
- (ii) y dosbarthiadau o safonau a allai fod yn gymwys i bob corff.

1.2 Mae'r Gorchymyn yn ymdrin â mewnosod cyrff ychwanegol yn Atodlen 6 i'r Mesur.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae gorchymyn i ddiwygio Atodlen 6 i'r Mesur ('Atodlen 6') yn debygol o gael ei wneud o bryd i'w gilydd er mwyn cynnwys newidiadau i statws cyrff, dileu cyrff nad ydynt bellach yn bodoli neu fewnosod cyrff newydd, i sicrhau y caiff Gweinidogion Cymru wneud safonau yn benodol gymwys iddynt.

2.2 Fel y nodir ym mharagraff 3.1 isod, gall Gweinidogion Cymru ond diwygio Atodlen 6 i gynnwys corff (neu gategori o bersonau) os yw'r corff hwnnw (neu gategori o bersonau) yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur. I sicrhau tryloywder mae'r tabl isod yn dangos, o ran y cyrff sy'n cael eu hychwanegu at Atodlen 6 drwy'r Gorchymyn hwn, ym mha gategori ydynt yn Atodlen 5 ym marn Gweinidogion Cymru. Os yw'n bosibl bod corff yn dod o fewn mwy nag un categori, dim ond un categori sydd wedi'i nodi.

| **Corff** | **Categori yn Atodlen 5** |
|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus. |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus. |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus. |

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 35 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 1 o'r tabl yn cynnwys:
- (i) person sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5; neu
- (ii) categori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

3.2 Mae adran 38 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod corff (neu gofnod "categori o bersonau") yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol:
- (i) safonau cyflenwi gwasanaethau;
- (ii) safonau llunio polisi;
- (iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau cadw cofnodion.

3.3 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 drwy fewnosod cyrff ychwanegol a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob corff.

3.4 Mae'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Senedd Cymru (y weithdrefn gadarnhaol).

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Cadarnhaodd y Mesur statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Mae pennu safonau ac awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd) i'w gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â'r safonau hynny yn gam allweddol yn y gwaith o roi effaith i'r Mesur.

4.2 Mae Atodlen 6 yn nodi'r cyrff a'r categorïau o bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Ers i'r Mesur gael ei wneud, mae rhai cyrff cyhoeddus ychwanegol wedi'u nodi nad oeddent yn flaenorol wedi'u cynnwys yn Atodlen 6.

4.3 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried a yw'r cyrff hyn yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 a phriodoldeb cynnwys y cyrff yn Atodlen 6. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni eu bod nhw.

4.4 Mae'r Gorchymyn yn mewnosod enwau personau yn Atodlen 6 a bydd yn diweddaru'r rhestr o bersonau yn Atodlen 6 i adlewyrchu'r newidiadau.

4.5 Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gosod unrhyw ddyletswyddau yn uniongyrchol ar y corff. Cyn ei bod yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau, mae'n rhaid bodloni nifer o amodau. Mae'r rhain wedi'u nodi yn adran 25 o'r Mesur. Un amod o'r fath yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud safonau yn benodol gymwys i'r corff neu'r categori o bersonau drwy Reoliadau. Yn ogystal, bydd yn rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i'r corff sy'n nodi pa safonau (ac ym mha amgylchiadau neu ardaloedd y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â nhw. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn gydymffurfio â safonau hyd nes y bodlonir yr amodau a nodir yn adran 25 o'r Mesur ac y cynhelir ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio (yn unol ag adran 47).

4.6 Bydd y Gorchymyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio rhai rheoliadau presennol ar y Gymraeg (gan Reoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025) fel y gellir gwneud safonau yn benodol gymwys i'r cyrff sydd yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn i Atodlen 6, ynghyd â rhai cyrff eraill a chategorïau eraill o bersonau sydd eisoes wedi'u rhestru yn Atodlen 6 i'r Mesur. Unwaith y bydd safonau wedi'u gwneud yn benodol gymwys i gorff mewn Rheoliadau, yna

mae'r Comisiynydd wedi'i awdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio i'r corff hwnnw sy'n nodi pa safonau y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â nhw.

*Apelio*

4.7 Bydd cyrff yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu cyflwyno i'r Comisiynydd. Os yw am herio penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

*Sancsiynau*

4.8 Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i gorff, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

## 5. Risgiau os na chaiff y Gorchymyn ei wneud

5.1 Oni bai bod corff sy'n perthyn i un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur hefyd wedi'i gynnwys yn Atodlen 6, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud safonau yn benodol gymwys iddynt. Bydd hyn yn golygu na fydd y Comisiynydd yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safonau.

5.2 Gallai hyn arwain at wireddu'r risgiau canlynol:

- Methu â rhoi elfen allweddol o'r Mesur ar waith. Hynny yw, cyflwyno'r system safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau.
- Efallai na chaiff corff sy'n ymwneud â'r cyhoedd ei gynnwys yn y system safonau newydd.
- Bydd anghysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.
- Bydd y cyhoedd yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd yn parhau os na chaiff y Gorchymyn hwn ei wneud i ganiatáu i safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i gyrff sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur.
- Ni fydd cyrff sydd â Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r system safonau.

## 6. Ymgynghori

6.1 Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad ar y cynnig i ychwanegu'r cyrff yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn i Atodlen 6, ar yr un pryd ag ymgynghoriad ar gynigion i ychwanegu cyrff neu gategori o bersonau at Reoliadau

presennol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Mehefin 2024 a 7 Hydref 2024.

6.2 Mae Atodlen 6 yn nodi'r cyrff a'r categorïau o bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae'r broses o'i gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau yn rhoi nifer o gyfleoedd i gorff gymryd rhan yn y broses a chodi unrhyw bryderon sydd ganddo.

6.3 Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r corff, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ef yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod hynny wedi digwydd eisoes neu bod y corff wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad safonau).

6.4 Mae'r cyrff sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn i Atodlen 6 yn ymwybodol o'r broses ar gyfer gwneud safonau ac yn rhan ohoni.

## 7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

7.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn gysylltiedig â Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025. Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu cyrff ychwanegol at y Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015;
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016;
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016;
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017; a
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.

7.2 Mae'r Gorchymyn hwn yn diweddaru'r Mesur i gynnwys y cyrff cyhoeddus ychwanegol a restrir uchod. Nid yw diweddaru'r Mesur, ynddo'i hun, yn arwain at unrhyw gostau a manteision ychwanegol. Dim ond drwy'r Rheoliadau diwygio a chyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio y bydd disgwyl i'r cyrff gydymffurfio â safonau, gan greu costau a manteision. Felly, paratowyd un Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Gorchymyn hwn a Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Gellir gweld yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://senedd.cymru/media/wbnpdiki/sub-ld16944-em-w.pdf